

Gallwch ychwanegu'ch targedau o'ch aseiniad diwethaf (Ond yn berthnasol os yr ydych wedi cwblhau aseiniad) / Please add your targets from the previous assignment (Only relevant if you have completed an assignment)

	Targed/target	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn What I have done in this assignment...
Targed/Target 1	Ehangu fy ngwybodaeth a fy nealltwriaeth o gynnwys dogfennau cwrwlaidd a pholisiau addysgol yng Nghymru.	Darllenais amrywiaeth o ddogfennau a cheisio cymharu nhw er mwyn ehangu fy nealltwriaeth a ddeall y safbwyntiau gwahanol. Yn ogystal, darllenais ddogfennau gan y Llywodraeth er mwyn cael persbectif gwleidyddol y wlad.
Targed/Target 2	Prawf-ddarllen fy ngwaith i ddileu mân wallau sillafu ac atalnodi.	Defnyddiais Cysill gan gynnwys ail-ddarllen drosto a chael rhywun arall i ddarllen drosto i chwilio am unrhyw wallau sillafu ac atalnodi.
Targed/Target 3		

Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun
Datblygu Ysgol: adroddiad sy'n adfyfyrio'n
feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r
sylfaen dystiolaeth.

Rhagarweiniad

Pwrpas yr adroddiad yw darganfod sut mae'r ysgol yn datblygu un agwedd o'i Chynllun Datblygu'r Ysgol. Bydd yr adroddiad yn adfyfyrio'n feirniadol ar gamau gweithredu'r ysgol a'r effaith a'r sylfaen dystiolaeth. Bydd yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o'r cynllun gweithredu a safbwynt beirniadol o weithrediad yr ysgol i guro ei thargedau. Yr agwedd byddaf yn ystyried ac yn canolbwyntio arni yw'r maes gofal, cymorth ac arweiniad yn y Cynllun Datblygu. Bydd yr adroddiad yn ystyried y camau mae'r ysgol yn dilyn i gyrraedd i gyflawni eu targedau yn y maes yma. Fe fydd yn cynnwys y camau gweithredu a'r meini prawf llwyddiant, ac yn ogystal, bydd yr adroddiad yn cynnwys adfyfyrio beirniadol er mwyn adolygu pa mor lwyddiannus mae'r camau yma er mwyn i'r ysgol gyrraedd ei thargedau. Yr ysgol dan sylw bydd yr adroddiad yn cyfeirio ati fydd ysgol Gymraeg tri i undeg naw. Yn ôl adroddiad (Estyn 2017), mae'r adran uwchradd yn cynnwys 500 o ddisgyblion. Mae 8% o ddisgyblion yn yr ysgol yn derbyn cinio am ddim, sydd yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol yn yr ysgolion uwchradd a chynradd (Estyn, 2017). Yn ogystal, dim ond 9% o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd eto yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol (Estyn, 2017). Mae 41% o ddisgyblion yn dod o gartrefi lle mae siaradwyr Cymraeg (Estyn, 2017).

Adolygiad Llenyddiaeth

Fel yr ydym yn ymwybodol, mae Cynllun Datblygu yn bwysig i'r ysgolion er mwyn iddyn nhw allu gwella a datblygu mewn meysydd penodol. Mae Cynllun Datblygu yn caniatáu i'r ysgolion adnabod eu gwendidau er mwyn gallu gwella a gosod targedau addas a pherthnasol i'r ysgol. Wrth osod Cynllun Datblygu, mae'r ysgol i gyd yn ymwybodol o'r targedau a beth sydd angen datblygu ymhellach.

Dywed adroddiad gan y (Llywodraeth Cymru, 2018), bod cynlluniau datblygu'r ysgolion yn cael eu cefnogi trwy gynllunio'n hir dymor a byr dymor sydd wedi plethu gyda thargedau heriol. Mae Cynllun Datblygu yn gynllun strategol ar gyfer gwelliant (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae'r adroddiad penodol yma yn esbonio a rhoi sylw i'r blaenoriaethau cenedlaethol mae angen ystyried wrth gynllunio Cynllun Datblygu'r ysgol. Mae rhain yn cynnwys, codi safonau addysg ynglŷn â llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol (Llywodraeth Gymru, 2018). Mae'n pwysleisio, nad yw pob Cynllun Datblygu yn gweithio i bob ysgol, felly mae'n rhywbeth personol ac unigryw i ysgol benodol (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae'r adroddiad yma yn ddefnyddiol wrth iddo amlinellu'r argymhellion wrth gynllunio Cynllun Datblygu i'r ysgol. Er enghraifft, nodir y camau ddylech chi ddilyn wrth gynllunio trwy hunanwerthuso, cynllunio strategol, gwneud gwelliant a gweithredu ac adolygu'r effaith (Llywodraeth Cymru, 2018). Wrth ddilyn y camau yma, dylai'r ysgol adnabod beth yw blaenoriaethau'r ysgol ac wedyn gosod targedau heriol a mesuradwy er mwyn gallu cyrraedd ei gweledigaeth. Mae'r adroddiad yma yn dda wrth iddo amlygu'r camau yn glir i gynllunio Cynllun Datblygu, yn ogystal â chyfeirio at ddisgwyliadau a llwyddiannau'r Cynlluniau Datblygu.

Yn wahanol i'r adroddiad gan Lywodraeth Cymru, mae erthygl gan One Education yn canolbwyntio'n fwy ar y pwysigrwydd o hunanwerthuso wrth ddechrau'r broses o gynllunio Cynllun Datblygu ar gyfer ysgol. Nodir bod y cysylltiad rhwng hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yr ysgol yn gallu arwain at welliannau cryf a llwyddiannus yn y dyfodol (One

Education, 2016). Caiff hyn ei gefnogi gan yr erthygl gan yr Adran Addysg. Cyfeirir at y syniad bod hunanwerthuso yn arwain at hunanwelliant sydd wrth wraidd Cynllun Datblygu'r ysgol (Department of Education, 2011). Mae'r erthygl yn mynd ymhellach wrth esbonio y dylai gweithredoedd a hunanwerthusiad arwain at addysg a phrofiad gwell i'r disgyblion (Department of Education, 2011). Ynghyd â hyn, esbonnir erthygl One Education, bod Cynllun Datblygu Ysgol dim ond yn gallu cael ei ysgrifennu ar ôl i'r ysgol werthuso ei pherfformiad (One Education, 2016). Mae'r erthygl yma yn cymryd safbwynt gwahanol wrth gymharu ag adroddiad gan Lywodraeth Cymru 2018. Mae'r erthygl yma yn ystyried y ffactorau sydd angen cael eu hystyried wrth gynllunio Cynllun Datblygu, yn hytrach na'r camau sydd angen eu dilyn. Mae'r erthygl yn dynodi bod angen asesu data mewnol yr ysgol er enghraifft data'r blynyddoedd a phynciau gwahanol cyn cynllunio Cynllun Datblygu (One Education, 2016). Yn ogystal, mae'n hanfodol i'r Llywodraethwyr arsylwi'r data yma hefyd (One Education, 2016). Yn wahanol i adroddiad y Llywodraeth yn 2018, mae'r erthygl yn pwysleisio bod rhan fwyaf o Gynllun Datblygu'r ysgol yn canolbwyntio ar y disgyblion a'u canlyniadau yn y dyfodol (One Education, 2016). Eto, mae'r erthygl gan yr Adran Addysg yn ehangu ar y pwynt yma trwy nodi bod y Cynllun Datblygu yn gynllun gwelliant (Department of Education, 2011). Dylai'r cynllun ddod a'r holl flaenoriaethau'r ysgol at ei gilydd er mwyn gallu cynllunio targedau, gweithredoedd a'r canlyniadau maen nhw'n bwriadu cyrraedd (Department of Education, 2011). Mae hon yn elfen eithaf pwysig yn yr erthygl, oherwydd pwrpas gwella'r ysgol yw i sicrhau llwyddiant a'r gorau ar gyfer pob disgybl o fewn yr ysgol honno.

Mae adroddiad (Estyn, 2019), yn cymryd safbwynt gwahanol i'r adroddiad One Education a chymryd safbwynt sy'n debycach i adroddiad gan y Llywodraeth. Mae adroddiad (Estyn, 2019) yn esbonio ac yn pwysleisio rôl Llywodraethwyr yr ysgol yn y broses o gynllunio Cynllun Datblygu. Nodir, bod y Llywodraethwyr yn ymroddedig i wella ysgolion (Estyn, 2019). Esbonnir bod gan bob llywodraethwr rôl benodol gyda chyfrifoldebau sbesifig i gyflawni yn y broses cynllunio Cynllun Datblygu'r ysgol (Estyn, 2019). Wrth ddarllen yr adroddiad, rydych yn dysgu bod y Llywodraethwyr yn rhan bwysig o'r cynllun wrth iddynt rannu eu cryfderau personol er enghraifft, iechyd a lles, disgyblion MAT a'r Pwyllgor Eco (Estyn, 2019). Caiff hyn ei ehangu ymhellach gan adroddiad Llywodraeth Cymru. Esbonnir, bod corff y Llywodraethwyr yr ysgol yn gyfrifol dros baratoi, monitro, adolygu a diwygio'r Cynllun Datblygu Ysgol (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae hwn yn pwysleisio pwysigrwydd rôl Llywodraethwyr yr ysgol yn y broses cynllunio Cynllun Datblygu. Yn ogystal, y Llywodraethwyr sy'n cynnal y trafodaethau am ddylanwad y Cynllun Datblygu ar yr ysgol ac os yw'n cyrraedd ei thargedau (Estyn, 2019). Eto, mae'r adroddiad yma yn ddefnyddiol i ystyried oherwydd mae'n cynnwys safbwynt gwahanol ac yn ystyried rôl benodol a hanfodol wrth gynllunio'r Cynllun Datblygu.

Datblygu pwynt gweithredu

Un brif ffocws yr ysgol yw creu awyrgylch frwdfrydig a chynnig nifer o gyfloedd i bob disgybl yn yr ysgol. Yn ogystal, maent yn awyddus i sicrhau bod pob disgybl yn llwyddo o fewn yr ysgol. Mae'r maes gofal, cymorth ac arweiniad yn cael sylw manwl o fewn Cynllun Datblygu'r ysgol. Mae'r ysgol wedi penderfynu gweithio ar y maes yma trwy hunanwerthuso ei gweithredoedd a'i dulliau i gofnodi a bod ar ben unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan

ddisgyblion o fewn yr ysgol. Ynghyd â hyn, mae'r ysgol hefyd wedi hunanwerthuso ei gweithredu ynglyn ag iechyd a lles disgyblion. Mae'r ysgol wedi adolygu'r cwricwlwm newydd wrth gynllunio Cynllun Datblygu. Mae'r cwricwlwm newydd yn nodi, bod elfennau iechyd a lles yn gysylltiedig â'i gilydd o fewn yr ysgol ac yn galluogi addysgu llwyddiannus (Llywodraeth Cymru, 2020).

Un o gamau'r ysgol i wella'r maes gofal, cymorth ac arweiniad yw i 'gyflwyno a dechrau gwreiddio'r defnydd o Classcharts' (Cynllun Gwella Ysgol X, 2019). Penderfynodd yr ysgol i i osod hyn fel targed oherwydd mae'n ddull effeithiol a threfnus o gadw ar ben disgyblion ac i fod yn ymwybodol o unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan rai. Yn ogystal â hyn, mae'r targed yma yn datblygu sgiliau Technoleg Gwybodaeth staff wrth ddefnyddio Classcharts yn fwy aml yn y gwersi ac i gadw cofnod o'r disgyblion. Yn ôl Cynllun Datblygu'r ysgol, mae'r ysgol yn sicrhau bod y staff yn derbyn hyfforddiant Classcharts ac yn ei ddefnyddio fel strategaeth gwobrwyo a chydabod llwyddiant (Cynllun Gwella Ysgol X, 2019). Mae'r cynllun hefyd yn cyfeirio at gyflwyno Classcharts i staff, rhieni a disgyblion (Cynllun Gwella Ysgol X, 2019). Mae'r weithred yma yn anelu at wella agweddau at ddysgu a chadw trefn a rheolaeth gadarn ar ddisgyblion. Yn ôl Holly Gardner, mae Classcharts yn effeithiol iawn i fonitro a chofnodi ymddygiad pob disgybl (Gardner, 2017). Mae'r ysgol wedi hunanwerthuso ei system ac wedi sylweddoli bod yna le i ddatblygu, ac felly, mae Classcharts yn berffaith i dreialu.

Mae Cynllun Datblygu'r ysgol hefyd yn cyfeirio at sefydlu map darpariaeth ADY traws ysgol (Cynllun Gwella Ysgol X, 2019). Pwrpas hwn yw tracio anghenion disgyblion ac i osgoi unrhyw rwystrau i gyfleoedd dysgu. Mae hwn yn cysylltu gyda theori Carol Dweck, lle dylid pob disgybl dderbyn yr un cyfleoedd ac i ddatblygu fel dinasyddion iach a hyderus (Dweck, 2017). Y camau mae'r ysgol wedi gosod yw defnyddio 'Provision Mapping' i dracio gwerthusiad ac anghenion disgyblion (Cynllun Gwella Ysgol X, 2019). Hefyd, maen nhw'n awyddus i leihau rhwystrau i gyfleoedd dysgu (Cynllun Gwella Ysgol X, 2019). Pwrpas y mapio yma yw dangos darpariaeth yr ysgol sy'n wahanol o beth mae'r cwricwlwm yn darparu (Provision Tracker, 2019). Mae hefyd yn rhoi mwy o gymorth i staff SENCO er mwyn cynnal trosolwg o gynlluniau ar gyfer disgyblion (Provision Tracker, 2019). Penderfynodd yr ysgol i gynnwys hyn yn y Cynllun Datblygu wrth asesu ei darpariaeth o system fonitro disgyblion sydd angen mwy o gymorth ar draws yr ysgol. Sylweddolion nhw fod angen system fwy effeithiol i gadw trefn a bod pob aelod o staff yn cael mynediad i'r wybodaeth yma. Felly, fe ychwanegon nhw'r targed yma i dreialu a chael system fwy trefnus. Ynghyd â hyn, mae'r ysgol am barhau i weithio tuag at weithredu'r Ddeddf ADY (Cynllun Gwella Ysgol X, 2019). Mae yna ddeddf newydd ynglyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd yn mynd i fod yn gymorth i ddisgyblion ac oedolion ifanc sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r ddeddf yn dod i rym yn 2020 (Snap Cymru, 2020). Er mwyn gweithredu'r targed yma, mae'r ysgol yn sicrhau bod y disgyblion yn derbyn y gefnogaeth gywir ac addas. Bydd y staff hefyd yn derbyn hyfforddiant i ddatblygu'n broffesiynol (Cynllun Gwella Ysgol X, 2019). Mae'n hanfodol bod staff yr ysgol yn gyfarwydd â'r ddeddf newydd hon.

Targed arall yr ysgol yw i ddefnyddio data asesiad PERMA i gynllunio strategaethau cefnogi addas ar gyfer pob disgybl (Cynllun Gwella Ysgol X, 2019). Er mwyn gweithredu'r targed yma mae'r ysgol am rannu gwybodaeth y disgyblion gyda staff a sicrhau bod cefnogaeth addas yn

cael ei darparu i bob disgybl (Cynllun Gwella Ysgol X, 2019). Nid oes llawer o fanyldeb yn cyfeirio at asesiad PERMA yn y Cynllun Datblygu'r ysgol. Er hyn, pwrpas y theori yma yw i gynhyrchu hapusrwydd (Pashca, 2020). Mae positifrwydd yn hybu hapusrwydd ac optimistiaeth. Mae pwrpas yn rhoi rheswm i ddisgyblion i gyflawni tasg oherwydd maen nhw'n ymwybodol o bwrpas y wers (Pashca, 2020). Yn olaf, mae cyflawniad yn bwysig i wthio disgyblion i ffynnu. Bydd y rhain yn helpu cynllunio i sicrhau bod llwyddiant pob disgybl. Bydd e hefyd yn hybu iechyd meddwl positif i ddisgyblion a staff. Cynlluniodd yr ysgol yn strategol wrth gadw hapusrwydd a llwyddiant y disgyblion mewn cof.

Adfyfyrio

Mae'r ysgol yn gweithio'n galed i gyrraedd ei thargedau a dilyn Cynllun Datblygu'r ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio Classcharts yn fwy ac wedi sefydlu map darpariaeth ADY i gadw trefn a chofnod o wybodaeth am bob disgybl. Mae map darpariaeth ADY yn yr ysgol yn datblygu yn yr ysgol. Er hyn, credaf efallai gall yr ysgol ddarparu fwy o gymorth i ddisgyblion gyda ADY o fewn y gwersi arferol yn hytrach na thynnu disgyblion allan o'u gwersi. Yn ôl yr (Adran Addysg, 2017), gall tudalen Un Proffil fod yn ddull effeithiol i ddarganfod anghenion disgyblion yn fwy manwl, yn hytrach na cheisio dyfalu wrth ddadansoddi data yn unig. Bydd Classcharts yn ffordd effeithiol o gofnodi'r wybodaeth hon. Mae'r ysgol yn defnyddio Classcharts yn eithaf effeithiol i wobrwyo a disgyblu disgyblion yn enwedig yn ystod amser cofrestru. Mae ymchwil yn cefnogi'r ffaith fod Classcharts yn system ddefnyddiol a hawdd i wobrwyo, disgyblu a chadw trefn ar bob disgybl yn yr ysgol (Gardner, 2017). Er bod yr ysgol yn dechrau ei ddefnyddio yn ddyddiol, mae angen i bob aelod o staff ddechrau defnyddio'r system er mwyn sicrhau cysondeb trwy gydol yr ysgol. Mae Classcharts yn effeithiol er mwyn i athrawon fod yn ymwybodol o ymddygiad disgybl, er hyn, nid yw e'n cael effaith fawr ar y disgyblion ei hun. Un o bwrpasau Classcharts yw canmol ymddygiad positif, ond nid yw'n cael effaith fawr ar ddisgyblion yn gyffredinol. Mae canmoliaeth yn holl bwysig i ddisgyblion oherwydd fe all helpu gyda sialensiau, ymdrech a delio gydag unrhyw heriau (Dweck, 2017). Felly, yn ôl (Cargill, 2019), mae canmol disgybl yn breifat yn gallu bod yn fwy effeithiol a golygu mwy i ddisgybl. Caiff hyn ei gefnogi gan (Dweck, 2017), lle esbonnir, ni ddylid unrhyw ddisgybl brofi diffyg hyder, dylen nhw fod yn ddewr a chredu eu bod nhw gallu llwyddo. Felly, er bod yr ysgol yn datblygu wrth ddefnyddio'r System Classcharts, efallai gall yr ysgol ganmol y disgyblion wyneb yn wyneb gyda phwyslais ar feddylfryd twf, yn hytrach nag dibynnu ar system benodol yn unig.

Mae staff yr ysgol yn llwyddo i rannu gwybodaeth am ddisgyblion sy'n cael effaith positif ar y broses o'u haddysgu. Mae hwn hefyd yn cynnwys ei llwyddiant o ddarparu cefnogaeth addas a pherthnasol i ddisgyblion. Gwelir hyn wrth i athrawon trafod yn gyson gyda chynorthwyr a staff ELSA yn yr ysgol er mwyn iddynt ddeall anghenion sbesifig yr unigolyn. Mae hwn yn gymorth i'r athrawon wrth iddyn nhw gynllunio ar gyfer pob disgybl. Yn ogystal, mae'n rhannu gwybodaeth rhwng athrawon am ddisgyblion mwy heriol a sut i ddelio gyda'r disgyblion penodol yma. Hefyd, mae'r ysgol yn llwyddo i roi canmoliaeth i ddisgyblion ond hefyd trwy osod targedau er mwyn i'r disgyblion ymateb i sylwadau ac i wella'u dealltwriaeth nhw o'r pwnc. Credaf er mwyn iddyn nhw ddatblygu ym mhellach, gallen nhw ddilyn PERMAH yn lle. Mae PERMAH yn debyg ond ychwanegir H sef iechyd. O dan iechyd maen nhw'n ystyried cwsg, ymarfer corff a deiet (Moore, 2020). Er bod yr ysgol

wedi cyffwrdd âg iechyd, gallen nhw ddatblygu hwn yn fwy. Gallen nhw roi mwy o bwyslais ar iechyd y disgyblion a gallen nhw gyd-weithio gydag aelodau'r gymuned i weithredu hyn er enghraifft, gallen nhw gyd-weithio gyda maethegydd neu chwaraewr lleol. Yn ôl (Moore, 2020), bydd hwn yn helpu gydag iechyd meddyliol a chorfforol disgyblion. Bydd hwn hefyd yn cynnig cefnogaeth addas ar gyfer y disgyblion.

Casgliad

Felly i grynhoi, wrth gyflawni'r adroddiad yma dysgais pa mor bwysig mae Cynllun Datblygu ar gyfer ysgol. Mae'n bwysig bod ysgol yn rhoi llawer o ymdrech ac ymroddiad mewn i gynllunio Cynllun Datblygu. Wrth gynllunio cynllun, mae'n hanfodol eich bod cadw lles y disgyblion mewn cof. Yn ogystal, mae'n bwysig bod theorïau yn cael dylanwad ar y cynllun hwnnw, mae angen cael theori penodol er mwyn gallu deall sut gall yr ysgol weithredu a datblygu mewn maes penodol. Er enghraifft, mae theori meddylfryd twf yn ddefnyddiol er mwyn cynllunio yn ôl iechyd a lles disgyblion. Felly, mae'r adroddiad yma wedi dylanwadu arnaf wrth ystyried pa fath o elfennau a theorïau sydd angen cadw mewn cof wrth gynllunio yn ôl anghenion yr ysgol a disgyblion i ddatblygu ymhellach yn y dyfodol.

Rhestr cyfeirnodau

Cargill, F. (2019) *How to praise pupils perfectly*. Available at: <https://www.tes.com/news/how-praise-pupils-perfectly> (Accessed: 1st April 2020)

Cynllun Gwella Ysgol X (2018-2019). 'Ysgol X: Cynllun Gwella Ysgol 2018-2019: A Blaenoriaethau Ysgol 2018 Ymlaen'

Department of Education (2011) *Every school a good school – school development planning-guidance*. Available at: <https://www.education-ni.gov.uk/publications/every-school-good-school-school-development-planning-guidance> (Accessed: 30th March 2020)

Department of Education (2017) *SEN support: research evidence on effective approaches and examples of current practice in good and outstanding schools and colleges*. Available at: [sen_support_resource.pdf](#) (Accessed: 1st April 2020)

Dweck, C. (2017) *Mindset. Changing the way you think to fulfil your potential*. London: Robinson.

ESTYN (2017) *Adroddiad Ysgol* [REDACTED] Available at:

[https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/\[REDACTED\]](https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/[REDACTED]) (Accessed: 30th March 2020)

Estyn (2019) *Governing body help strengthen school improvement*. Available at: <https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/governing-body-help-strengthen-school-improvement> (Accessed: 30th March 2020)

Gardner, H. (2017) *7 Tips to Boost Behaviour*. Available at: <https://www.teachertoolkit.co.uk/2017/05/09/classcharts-3/> (Accessed: 31st March 2020)

Llywodraeth Cymru (2018) *Arweinyddiaeth ar gyfer system sy'n gwella ei hun*. Available at: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/thema-1-arweinyddiaeth-ar-gyfer-system-sy-n-gwella-ei-hun-adnoddau-1-7.pdf> (Accessed: 30th March 2020)

Llywodraeth Cymru (2018) *Cynlluniau Datblygu Ysgolion*. Available at: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cynlluniau-datblygu-ysgolion.pdf> (Accessed: 30th March 2020)

Llywodraeth Cymru (2020) *Maes Dysgu a Phorifad. Iechyd a Lles*. Available at: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/iechyd-a-lles/> (Accessed: 31st March 2020)

Moore, C. (2020) *What is Positive Education, and How Can We Apply It?* Available at: <https://positivepsychology.com/what-is-positive-education/> (Accessed: 1st April 2020)

One Education (2016) *Effective School Improvement Plan*. Available at: <https://www.oneeducation.co.uk/news-blog/effective-school-improvement-plan> (Accessed: 30th March 2020)

Pascha, M. (2020) *The PERMA Model: Your Scientific Theory of Happiness*. Available at: <https://positivepsychology.com/perma-model/> (Accessed: 1st April 2020)

Provision Tracker (2019) *The five fundamentals of SEN & Provision Mapping*. Available at: <https://provisiontracker.com/the-five-fundamentals-of-sen-provision-mapping/> (Accessed: 1st April 2020)

Snap Cymru (2020) *ALN/ SEN Reform*. Available at: <http://www.snapcymru.org/help-for-families/aln-reform/> (Accessed: 1st April 2020)

Atodiadau**Atodiad 1****MAES 4 GOFAL, CYMORTH AC ARWEINIAD**

Sefydlu darpariaeth Classcharts (ELG)

Sefydlu map darpariaeth ADY traws ysgol a gweithio tuag at weithredu y Ddeddf ADY o 2021 ymlaen. (GHL ELG EHS)

Defnyddio data asesiad PERMA i gynllunio strategaethau cefnogi addas (GHL/ELG)

Cydwethio â'r AAL ar gynllun Meincnodau Gyrfaedd Gatsby (ELG)

Gweithredu : Beth?	Pwy?	Pryd?	Cost	Meini prawf llwyddiant	Monitro	Hunanwerthuso yn ystod y flwyddyn
Cyflwyno a dechrau gwreiddio'r defnydd o Classcharts	ELG	Medi 2019 – Gorffennaf 2020	£4,800 (Cyllid Gyda'n Gilydd)	Staff wedi derbyn hyfforddiant Classcharts ac yn ei ddefnyddio Strategaethau gwobrwyo a chydabod llwyddiant yn eu lle. Camau pendant a chlir yn cael eu gweithredu'n gyson 'Classcharts' wedi ei gyflwyno i staff, rhieni a disgyblion ac yn weithredol ar draws yr ysgol Agwedd at ddysgu yn gwella	ELG	
Sefydlu map darpariaeth ADY traws ysgol a	GHL ELG EHS	Medi 2019 – Gorffennaf 2020	£3735 (Cyllid Gyda'n Gilydd)	Adnodd 'Provision Mapping' yn cael ei ddefnyddio i dracio anghenion a gwerthuso darpariaeth Lleihau rhwystrau i gyfleoedd dysgu Defnyddir data addas i adnabod anghenion	GHL	
Parhau i weithio tuag at weithredu y Ddeddf ADY o 2021 ymlaen.	GHL EHS ELG	Parhaus	Amser	Disgyblion yn derbyn y gefnogaeth gywir. Codi safonau cyrhaeddiad disgyblion. Uwchsgilio staff drwy	GHL	

Atodiad 2

				ddatblygiad proffesiynol		
Defnyddio data asesiad PERMA i gynllunio strategaethau cefnogi addas	ELG	Rhagfyr 2019 – Gorffennaf 2020	Cyflenwi	Gwybodaeth am y disgyblion yn cael ei rhannu a'u defnyddio Cefnogaeth addas yn cael ei darparu ar gyfer y disgyblion	ELG GHL	
Cydweithio â'r AAL ar gynllun Meincnodau Gyrfaoedd Gatsby	ELG ASC	Tachwedd 2019- Gorffennaf 2020		Data gwaelodlin ar gael yn dilyn awdit. Proffil meincnodi presennol yr ysgol wedi ei greu a chynllun gweithredu yn ei le. Cyfleoedd/ darpariaeth yr ysgol yn cydfynd â llwybr gyrfaoedd y dysgwyr	ELG	